# Diwrnod i'r brenin yn 'Rocio'r Wyddfa'!

Am gyffro! Heddiw yw'r dydd – bant â ni am Reilffordd yr Wyddfa!

Ar ôl dechrau cymylog, buan iawn daw'r haul dyfriog allan. Wrth gyrraedd Llanberis, gwelir torf yn aros y tu allan i'r orsaf, ynghyd â chôr hyfryd Gofal Canser Tenovus, 'Canwch gyda Ni', sy'n ein diddanu wrth i ni aros yng ngwres yr haul am ein trên. Awn i gwrdd â stiwardiaid y Clwb Rotari am friffiad croesawu, a chawn strapiau i'w gwisgo sydd â'r geiriau, "Wrth dy ochr, cariad, gobaith, cryfder, sylfaen."

Mae ein cyd-deithwyr o bob oed, yn ddioddefwyr canser ac yn rhai sydd wedi gorchfygu canser a phobl â dementia. Cawn ein llwytho i mewn i'r cerbydau gyda diod a bynsen ac i ffwrdd â ni, dan wenu o glust i glust.

D'oeddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl a synnais at ba mor uchel yr oedden ni cyn gynted ag y gwnaethom adael yr orsaf. Yna, gwelais raeadr dwy ran hyfryd yn taranu i lawr i'r afon islaw - am olygfa!

Aethom yn ein blaenau – y trên yn ceisio'i orau glas i gario ei lwyth – heibio i'r orsaf hanner ffordd ac arhosfan Rocky Valley, gorsaf Clogwyn ac yna i'r copa ei hun.

Erbyn hyn, roedd y tywydd wedi gwella'n eithriadol ond roedd y copa'n oer ac yn niwlog. Synnais weld y cannoedd o droedfilwyr yn brwydro'u ffordd i frig mynydd uchaf Cymru. Gwnaeth llawer ohonynt godi llaw ar y trên – gwnaethon ni godi llaw yn ôl. Golygfa annisgwyl arall oedd y Caffi Copa newydd, dan ei sang â channoedd o gerddwyr. Cawsom ein llun wedi'i dynnu gyda'r arwydd 'Copa'r Wyddfa' y tu ôl i ni i brofi ein bod wedi llwyddo i'w gyrraedd. Cawsom hefyd gipolwg ar Mike Peters, y canwr roc, a ymunodd â'n trên tua thref.

Wrth gwrs, nid oes geiriau i ddisgrifio'r gadwyn o fynyddoedd; Crib Goch, Moel Eilio, y Lliwedd, Llechog ac ati – yn aruthrol ac yn hollol syfrdanol. Mae'n anodd dychmygu mawredd o'r fath heb i chi ei weld a'ch llygaid eich hun. Y ffordd fel llinyn arian, ymhell islaw.

Roedd pawb mor gyfeillgar a gwnaethom gwrdd â'r bobl fwyaf clên. Roedd awyrgylch mor hapus drwyddi draw ar y trên. Ni fyddem wedi breuddwydio mynd ar yr antur hon heb gymorth a chefnogaeth ac rydym yn ddiolchgar tu hwnt am y cyfle.

Llenwyd ni â hapusrwydd ar ein taith gartref a bydd gennyf atgofion melys iawn o'r diwrnod hwn.

C Longworth, Gofalydd o Gonwy